**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol Gynradd Dolgellau**
(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

## Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?

- Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon.

**Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 2**

CA1
Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymweld âg eglwys a chapel er mwyn siarad am yr hyn sy'n digwydd yno a gallant adnabod rhai nodweddion o eglwys. Maent yn adnabod y Beibl fel Llyfr Sanctaidd ac yn gyfarwydd a storïau am Iesu Grist
Maent yn ymwybodol o storiau ac arferion o grefyddau eraill, megis Diwali a hanes Rama a Sita a cymerir rol weithredol gan y plant wrth gyflwyno'r wybodaeth.
CA2
Gallant ddisgrifio nodweddion dathliadau a defodau crefyddol a'u cefndir.
Mae'r disgyblion yn gyfarwydd a phrif reolau Cristnogaeth a'u heffaith ar fywyd Cristnogion. Maent yn deall ystyr perthyn i gymuned Gristnogol a phwysigrwydd gofalu am ac ystyried pobl eraill
Gall y disgyblion ddisgrifio ac egluro nodweddion addoldai a'u patrwm addoliad trwy astudio arteffactau crefyddol. Rhoddir cyfleoedd iddynt ymweld ag addoldai a chyfarfod arweinwyr crefyddol yn y gymuned.
Maent yn gyfarwydd a nifer o arferion a gweithgareddau crefyddol a nodweddion y dathliadau a defodau sy'n gysylltiedig a nhw.

**Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?**

Codi cwestiynau ysbrydol/crefyddol a'u trafod.
Datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o rai atebion i gwestiynau mawr bywyd a'u gallu i fynegi ymateb i brofiadau bywyd.
Annog disgyblion i ffurfio eu syniadau a'u credoau eu hunain am fywyd a chrefydd a chyflwyno'r ymatebion personol hyn mewn ffyrdd gwahanol.
Adolygu cynlluniau gwaith gyda'r bwriad o greu mwy o gyfleoedd i'r disgyblion fod yn fwy gweithredol yn eu dysgu.

## Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

**Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

- Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.

- Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

**Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth** **Gradd : 2**

Mae gwasanaethau'r ysgol yn gosod cynsail i ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.
Mae gan yr ysgol amcanion clir o ran datblygiad moesol y plant. Ymdrechir i'w gwireddu yn yr ethos ofalgar sy'n cwmpasu bywyd a gwaith yr ysgol.
Mae'r ysgol yn addysgu'r plant am egwyddorion Masnach Deg a wedi gwneud cysylltiadau gyda phwyllgor Masnach Deg yn yr ardal.
Mae'r ysgol yn cyfrannu'n hael at elusennau, yn lleol ac yn genedlaethol.
Caiff dinasyddiaeth fyd eang sylw da ar draws y cwricwlwm. Ceir ymateb brwydfrydig pob blwyddyn i apêl Operation Christmas Child.

**Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?**

Adeiladu ar y sylfeini sydd eisioes yn eu lle a gosod fframwaith ysgol gyfan sy'n diwallu'n llawn gofynion Addysgu ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad: 28 Ionawr 2009** | |
| **Arwyddwyd: D T Sheppard**<br>**(Pennaeth)** | |